AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

In Focus
Gaeaf 2025/26 Rhifyn 31

# Cylchlythyr y Gaeaf AWTTC

**Diweddariad ar y newyddion, y cyhoeddiadau a'r adnoddau diweddaraf.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Gorffennaf – Ionawr 2025 /2026 newyddion gan:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd, asesiadau meddyginiaethau Cymru'n Un a sicrhau ansawdd allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dadansoddi ac adrodd ar ddata defnydd meddyginiaethau.
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor 24 awr y dydd ar wenwynau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWMSG yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2024–2025 yn amlygu cyflawniadau allweddol mewn mynediad at feddyginiaethau, diogelwch ac optimeiddio

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyflawniadau allweddol y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar gydweithio, arloesi, a dulliau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Yn yr adroddiad blynyddol, gallwch ddarllen mwy am yr holl brosiectau y mae AWMSG wedi bod yn gweithio arnynt drwy gydol 2024–2025.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Mae'r Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol newydd yn croesawu cynhyrchion ymchwiliol cyntaf

Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) wedi cyhoeddi ar ran Partneriaid ILAP, mai tri therapi posibl yw'r cyntaf i ymuno â chynllun newydd yn y DU a gynlluniwyd i helpu meddyginiaethau newydd addawol i gyrraedd cleifion y GIG yn gyflymach ac wedi derbyn 'Pasbortau Arloesi'.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Archwilio diogelwch meddyginiaethau mewn Diwrnod Arfer Gorau ar y cyd rhwng AWTTC a Chanolfan Cerdyn Melyn Cymru

Mynychodd dros 150 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol o bob cwr o Gymru'r Diwrnod Arfer Gorau blynyddol, yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd ar 2 Gorffennaf 2025. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar thema Diogelwch Meddyginiaethau ac roedd yn cynnwys rhaglen lawn o sgyrsiau arbenigol, cystadleuaeth posteri, a sesiynau grŵp, pob un â'r nod o wella arferion rhagnodi ar draws GIG Cymru.

Darllen ragor yma

Mae recordiadau a sleidiau o'r sesiynau ar gael yma



AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Geisiadau am Gyllid Cleifion Unigol 2024-2025

Yn 2024-2025 parhaodd timau IPFR ledled Cymru i ddarparu gwasanaeth hanfodol i gleifion a allai fod angen triniaethau nad ydynt ar gael yn rheolaidd yn GIG Cymru. Mae timau wedi gweithio'n galed i sicrhau bod IPFRs yn cael eu hystyried mewn modd amserol a chyson er mwyn darparu penderfyniadau teg a thryloyw.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Fframwaith gofal a rennir Cymru gyfan a thaflenni gwybodaeth i gleifion wedi'u cyhoeddi

Nod y dogfennau hyn yw sicrhau cysondeb mewn gofal a rennir ledled Cymru o ran egwyddorion, cymhwyso trefniadau gofal a rennir sy'n cael eu datblygu a'u hadolygu, a mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y claf tuag at ofal a rennir.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg

## Cyhoeddwyd Canllawiau Cymru Gyfan i gefnogi'r broses o reoli meddyginiaethau yn integredig mewn lleoliadau cymunedol

Datblygwyd y canllawiau hyn drwy gydweithio â phartneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn amlinellu safonau ar lywodraethu cydweithredol i gefnogi proses ddiogel ac optimaidd o reoli meddyginiaethau, er mwyn sicrhau dull cyson a dibynadwy o reoli meddyginiaethau mewn gofal cymunedol yng Nghymru.

Darllenwch ragor yma

## Canllaw Rheoli a Phresgripsiynu Asthma Oedolion wedi'i ddiweddaru

Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd yn agosach â'r canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Thorasig Prydain (BTS), NICE a Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban (SIGN).

Darllenwch ragor yma

## Cyhoeddiad AWTTC - effaith defnyddio agonydd derbynnydd GLP-1 ar ofal heb ei drefnu

Ysgrifennwyd gan Gyfarwyddwr Clinigol AWTTC ac Athro yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd, yr Athro James Coulson, ac Oliver Thomas o fwrdd iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Cafodd eu papur, o'r enw "GLP-1 agonist-associated presentations to unscheduled care: An opportunistic pilot study" ei gyhoeddi yn y British Journal of Clinical Pharmacology.

Darllenwch ragor yma

## AWTTC yn derbyn y wobr gyntaf am y cyflwyniad poster gorau yng Nghynhadledd Flynyddol RPS 2025

Mae AWTTC yn falch iawn o fod wedi ennill y Wobr Gyntaf am y Cyflwyniad Poster Gorau yng nghynhadledd eleni. Cyflwynwyd y poster 'Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2025–2028 ar gyfer GIG Cymru: Dan Arweiniad Rhanddeiliaid' gan Shaila Ahmed, Uwch Fferyllydd yn AWTTC.

Darllenwch ragor yma

## Adran 'Triniaeth COVID-19' wedi'i hychwanegu at 'Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol'

Mae adran newydd 'Triniaeth COVID-19' wedi'i hychwanegu, ochr yn ochr â mân ddiweddariadau i'r adrannau ar gyfer 'Clefyd meningococol a amheuir', 'Sepsis y tu allan i'r ysbyty', 'Varicella zoster (Y frech goch)', 'Herpes zoster (Yr eryr)', 'Y Ffliw', 'Candidiasis geneuol', 'Haint dermatoffyt', ac 'Y Ddanoedd'.

Darllenwch ragor yma

## 'Canllawiau presgripsiynu ar gyfer rheoli endocrin anghydweddiad rhywedd mewn oedolion' wedi'u diweddaru

Mae mân ddiweddariad wedi'i gyhoeddi sy'n dileu argymhelliad ar gyfer prawf sgrinio uwchsain endometriaidd rheolaidd bob dwy flynedd.

Darllenwch ragor yma

## Cyhoeddiad AWTTC - Gwyliadwriaeth tocsicoleg yn y DU yn ystod pandemig COVID-19

Llongyfarchiadau i Nicolas Brooke o Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ac aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau, gan gynnwys Siân Harbon, Tocsicolegydd/Awdur Meddygol AWTTC, ar eu cyhoeddiad diweddar.

Cyhoeddwyd eu papur, o'r enw "Toxicovigilance in the UK during the COVID-19 pandemig", yn y cyfnodolyn Toxicology Research ar 14 Rhagfyr 2025.

Darllenwch ragor yma

## Mwy o sesiynau Dysgu dros Ginio ar gael nawr

Cynhaliwyd mwy o sesiynau Dysgu dros Ginio awr o hyd ar-lein ar 10 Gorffennaf ac 1 Hydref yn trafod amrywiaeth o bynciau gan gynnwys 'Datgarboneiddio nwyon meddygol – prosiect ocsid nitrus', 'Ecosystem meddyginiaethau newydd yng Nghymru', 'Gofal sylfaenol mwy gwyrdd, a'r 'Menopos a chyfnodau rhagnodi'.

Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau a recordiadau yn y dyfodol ar gael yma

## Mân ddiweddariadau i Fonograffau Llyfr Fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin wedi'u cyhoeddi

Cyhoeddwyd mân ddiweddariadau i amrywiaeth o fonograffau o fewn 'Llyfr Fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan', gan gynnwys 'Llwnc tost, 'Haint y llwybr wrinol', 'Poen cefn', 'Rhwymedd', 'Dolur Rhydd', 'Dyspepsia' a 'Llyngyr Edau'.

Darllenwch ragor yma

# PAPIG

## Newyddion diweddaraf gan Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG

Cyfarfu PAPIG ar 12 Medi a 3 Rhagfyr, gyda thrafodaethau yn archwilio ffarmacogenomeg a meddyginiaethau manwl yng Nghymru, gan flaenoriaethu lleisiau pobl sydd â phrofiad bywyd mewn ymchwil i glefydau prin, pigiadau colli pwysau a beichiogrwydd, cymryd eich meddyginiaethau eich hun yn yr ysbyty a chydbwyso annibyniaeth â chefnogaeth staff, dysgu sut i ragnodi trwy roi hyfforddeion ar y rheng flaen, a sut y gall cyfarwyddiadau ar labeli meddyginiaeth wella diogelwch cleifion.

Ymunwch â ni yn ein cyfarfod ar-lein am ddim nesaf ar 6 Mawrth. Cwblhewch ein ffurflen ar-lein os hoffech ddod i'r cyfarfod.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG – Arolwg adborth

Rydym yn eich gwahodd i rannu eich adborth a'ch barn ar adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG.

Bydd eich adborth yn helpu i lywio adolygiad helaeth o'r 'Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau' sy'n disgrifio sut mae adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG yn cael eu creu; o gynnig gan randdeiliaid, i gymeradwyo, lledaenu ac adolygu. Bydd eich adborth yn helpu i sicrhau bod yr adolygiad yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion pobl a gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol yng Nghymru.

Ni ddylai'r arolwg hwn gymryd mwy na 10 munud i'w lenwi. Mae croeso i chi ei rannu gyda'ch cydweithwyr.

[Gallwch gael mynediad at yr arolwg yma]

Arolwg: Adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG - eich adborth

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Ymunwch â ni ar gyfer ein Diwrnod Ymgysylltu â Diwydiant 2026

Bydd y digwyddiad, a gynhelir ddydd Iau, 30 Ebrill o 8.30am i 3.30pm, yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, yn trafod pynciau hollbwysig fel Sganio'r Gorwel, Ymgysylltu Masnachol, prosesau Mynediad at Feddyginiaethau, a Rhaglen Fuddsoddi VPAG (Cymru).

Mae hwn yn gyfle gwych i bartneriaid diwydiant ymgysylltu ag AWTTC a dysgu sut a phryd i gymryd rhan yn ein prosesau. I ddarganfod beth rydym yn ei wneud i wella mynediad at feddyginiaethau i bobl sy'n byw yng Nghymru a darganfod sut allwch chi gymryd rhan, cofrestrwch nawr ar gyfer y digwyddiad hwn.

[Cofrestrwch yma]

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor meddyginiaethau newydd ar gyfer GIG Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyngor gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer dau feddyginiaeth.

Medi: Adolygiad o gyngor ar gyfer infliximab gan Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un

Rhagfyr: Adolygiad o gyngor ar gyfer venetoclax (Venclyxto®) gydag azacitidine gan Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Rhestr ffurflenni system Cyffuriau Cost Uchel Blueteq yn mynd yn fyw ar wefan AWTTC

Rhestr bwrpasol o ffurflenni Blueteq sydd ar gael i'w defnyddio ar draws GIG Cymru bellach yn fyw ar wefan AWTTC. Mae hyn yn nodi cam pwysig wrth gefnogi byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a chlinigwyr i weithredu system Cyffuriau Cost Uchel (HCD) Blueteq.

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Fersiynau diweddaraf o 'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer 'datgarboneiddio anadlyddion' a 'chyfnodau rhagnodi'.

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2024–2025: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Medi 2025

Mae adroddiad y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI), sy'n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy'n dod i ben ym mis Medi 2025, wedi'i gyhoeddi.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Digwyddiad Ysgol Haf Prifysgol Caerdydd - NPIS Caerdydd

Yn ddiweddar, cynhaliodd tîm NPIS Caerdydd brofiad ystafell ddianc addysgol i fyfyrwyr Safon Uwch sy'n anelu at astudio meddygaeth neu ddeintyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd y mis Medi hwn.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Cyhoeddiad NPIS Caerdydd - adolygiad ôl-weithredol o amlygiadau madarch

Mae sawl rhywogaeth o fadarch gwenwynig yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, ond mae amlygiadau sy'n achosi gwenwyndra difrifol neu farwolaeth yn brin. Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data canolfannau gwenwyn i ddisgrifio tueddiadau mewn gwenwyno madarch yn y Deyrnas Unedig dros gyfnod o 10 mlynedd.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Digwyddiad DPP 60fed pen-blwydd NPIS Caerdydd

Roedd yn gyfle gwych i gysylltu â chydweithwyr o bob rhan o'r NPIS a Chanolfan Gwybodaeth Gwenwynau Genedlaethol Iwerddon ond hefyd o sefydliadau eraill fel Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, RCCE, WEDINOS, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Cwrs Diweddaru Tocsicoleg Feddygol 2025

Mae'r digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o reoli achosion gwenwyno, yn ogystal â darparu gwybodaeth am y tueddiadau a'r ymchwil diweddaraf ym maes tocsicoleg feddygol.

Darllenwch ragor yma

Yellowcard Centre Wales

# Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd ac Wythnos Diogelwch Meddyginiaethau

Mae Hyrwyddwyr y Cerdyn Melyn ledled Cymru wedi bod yn brysur yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd adrodd drwy'r Cerdyn Melyn ac yn cefnogi ymgyrchoedd rhyngwladol Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd (WPSD) ac #WythnosDiogelwchMeddyginiaethau.

Cynhaliwyd WPDS ar 17 Medi 2025 pan ymunodd Hyrwyddwyr y Cerdyn Melyn yn BIP Caerdydd a'r Fro â chydweithwyr yn y timau Diogelwch Cleifion, Fferylliaeth a Menywod a Phlant (ynghyd ag eraill) i hyrwyddo pwysigrwydd "gofal diogel i bob newydd-anedig a phlentyn".

Yn ystod #WythnosDiogelwchMeddygiaethau, 3-9 Tachwedd 2025, cynhaliodd ein hyrwyddwyr amrywiaeth o ddigwyddiadau. Fe wnaethon nhw atgoffa staff ac aelodau'r cyhoedd y 'gallwn ni i gyd helpu i wneud meddyginiaethau'n fwy diogel' drwy roi gwybod am adweithiau niweidiol a amheuir i feddyginiaethau a phroblemau a amheuir gyda dyfeisiau meddygol i'r cynllun Cerdyn Melyn.




Cawson ni ddiwrnod cynhyrchiol yn Asda Lecwydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o gynllun y Cerdyn Melyn. Roedd yr ymgysylltiad â'r cyhoedd yn rhagorol, a chafwyd awyrgylch hamddenol a rhyngweithiol. Roedd trafodaethau'n aml yn canolbwyntio ar weithyddion derbynyddion GLP-1, gan gynnwys sgil-effeithiau fel "gwallt Monjaro," a meddyginiaethau biolegol. Roedd y sgyrsiau hyn yn gyfle delfrydol i dynnu sylw at bwysigrwydd adrodd ar sgil-effeithiau a'r effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei chael ar ddiogelwch cleifion, yn enwedig gyda thriniaethau newydd. Roedd yn hynod ddiddorol clywed profiadau personol. Fe wnaethon ni hefyd gynnig cyngor ymarferol ar reoli prinder meddyginiaethau, sy'n parhau i fod yn her gyffredin.